# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2006 11 Tachwedd Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher yr 8fed o Dachwedd 2006 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Menna Roberts (Cadeirydd), Cynghorwyr Anne Sizmur, Loreen Lewis, Annette Price, Peter Cowell, Keith Rees, Betsan Jones a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIADAU: Henadur Arnallt D James, Cynghorwyr Carwyn James, Delyth Richards, E Audrey Jones a June Gunter.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Roedd y Cynghorwr Anne Sizmur wedi datgan diddordeb yng Nghais Cynllunio E/14471 - datblygiad arfaethedig o 2 dy cyfagos i 74 Heol Maescware, Betws oherwydd mae hyn gyferbyn â'i thy.

1.DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 11eg O HYDREF 2006.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Annette Price ac eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod cofnodion cyfarfod yr 11eg o Hydref 2006 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MRS JAMES PENNAETH YSGOL Y BETWS.
Mynychodd Pennaeth Ysgol Y Betws Mrs James y cyfarfod i roi adroddiad i'r Cynghorwyr ynglyn â'r Ysgol.

Rhoddodd y Gadeiryddes ddiolch i Mrs James am ei hadroddiad.

3. MATERION YN CODI.
3.1 Cadwyn Y Cadeirydd.
Gofynnodd y Cynghorwr Peter Cowell i'r Clerc am ddiweddariad ynglyn â Chadwyn y Cadeirydd. Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn cydnabyddiaeth archebu ac fe wnaeth hi ymchwiliadau i weld faint o amser fydd hyn yn cymryd.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

3.2 Llwybr Troed 68/11.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn dweud bydd arwyddion 'dim baw cwn' yn cael eu gosod ar hyd y llwybr hwn.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

3.3 Cyngor Sir Caerfyrddin - Cytundeb Lefel Gwasanaeth.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniodd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn dweud taw argraff y Cyngor Sir ynglyn â'r Betws oedd bod y pentref yn lân gydag ond ychydig eitemau o sbwriel amlwg oherwydd bod gan y trigolion falchder yn y pentref.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

Adroddodd y Cynghorwr Sir John D Evans ei fod yn y broses o drefnu cyfarfod gyda'r Adran Gwasanaeth Technegol ynglyn â golwg strydoedd ardal Rhydaman.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

3.4 Archifo Ffeiliau Hen y Cyngor Cymuned.

Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price os yw’r Clerc wedi gwaredu llyfrau sieciau ac anfonebau sydd wedi cael eu defnyddio. Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwr fod hwn wedi cael ei wneud.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

3.5 Y Groes ar Eglwys a Chapel y Betws.
Gofynnodd y Cynghorwr Anne Sizmur i'r Cynghorwr Keith Rees oedd wedi derbyn ymateb ynglyn â’r groes am yr Eglwys a’r Capel. Adroddodd y Cynghorwr Keith Rees nad yw wedi derbyn ymateb. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Cyngor Cymuned yn rhoi caniatâd i fynd ymlaen a hyn. Cytunodd y Cynghorwyr. Cadarnhaodd y Cynghorwr Keith Rees fydd yn ffonio’r Cynghorwyr gyda’r prisiau.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

3.6 Swydd Wag Cynghorwr.
Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price i’r Clerc am esboniad ynglyn â llenwi swydd wag Cynghorwr. Esboniodd y Clerc y broses i’r Cynghorwyr. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynhyrchu hysbysiad i hysbysebu’r swydd wag ac mae'n cael ei hysbysu o amgylch y pentref. Os oes mwy na 10 aelod o’r gymuned yn ymateb i’r hysbysiad yna bydd etholiad yn cymryd lle. Os nad yw’r Cyngor Sir yn derbyn ymateb bydd rhaid i’r Cyngor Cymuned gyfethol Cynghorwr Cymuned. Mae’r hysbysiadau yn cael eu dosbarthu o amgylch y pentref. Bydd yr ymatebion yn cael eu trafod gan y Cynghorwyr Cymuned ac fe fydd pleidlais yn cymryd lle a’r aelod sydd a’r bleidlais fwyaf bydd yn cael ei chyfethol/gyfethol fel Cynghorwr Cymuned.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

3.7 Pyllau Glo ni ddefnyddir bellach ym Metws.
Adroddodd y Cynghorwr Sir John D Evans ei fod ef wedi ysgrifennu at yr Adran Cynllunio i ofyn iddynt am ysgrifennu at Awdurdod y Glo ynglyn â’r Pyllau Glo ni ddefnyddir bellach ym Metws. Mae’r Cynghorwr Sir John D Evans hefyd yn pryderu am y siafft gyfagos a Phlas Maescware.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

4. GOHEBIAETH.
4.1 Cyngor Sir Caerfyrddin - Seminar Cynllunio.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwr fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal seminar cynllunio ar y 6ed o Chwefror 2007. Gofynnodd y Cynghorwyr Menna Roberts ac Annette Price os allan nhw fod yn bresennol yn y seminar ar ran y Cyngor Cymuned. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn ymateb i’r llythyr a dderbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin.

4.2 Awdurdod Heddlu Dyfed Powys.
Darllenodd y Clerc llythyr a dderbyniwyd wrth Awdurdod Heddlu Dyfed Powys ynglyn â Chynllun Plismona Blynyddol 2007/2008. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Cyngor Cymuned yn ymateb gan ddweud am fesuriad o ostwng cyflymder mewn ardaloedd gwledig. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ymateb i’r llythyr.

4.3 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol:
1. Cyngor Sir Caerfyrddin
• Gwybodaeth ynglyn â Chronfa 1 - rhoddwyd copïau i Gynghorwyr Anne Sizmur, Arnallt James, Loreen Lewis, Menna Roberts ac Annette Price.
• Yr adolygiad sydd i’w gynnal o Gymunedau Sir Gaerfyrddin.
• Addurniadau Tymhorol.
2. Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y Canolbarth a’r Gorllewin.
3. Llywodraeth Cynulliad Cymru - Ymgynghoriad ar ganllawiau drafft ar ddeddf

cymdogaethau glân a'r amgylchedd 2005.

5. MATERION CYNLLUNIO.
5.1 Mae Cyngor Cymuned y Betws wedi rhoi caniatâd i'r ceisiadau canlynol:-
E/14679 - Estyniad ochr deulawr teip dormer, wrth Dy Canol, Heol Dwr, Hopkinstown (20).
E/14563 - Garej ar wahân arfaethedig ger 31 Parc Coetir, Betws (17).
E/14622 - Estyniad sy'n cynnwys bar newydd hyd at gefn yr adeilad, Ty Coch, Heol Maescware, Betws (18).

5.2 Roedd gan y Cynghorwyr arsylwadau i wneud ynglyn â'r Cais Cynllunio dilynol:-
E/14471 - datblygiad arfaethedig o 2 dy cyfagos i 74 Heol Maescware, Betws (16).
• Mae'r canlynol wedi dod i sylw'r Cynghorwyr fod cymdogion yn y cyffiniau wedi cael profiad o broblem wyneb carthffosiaeth ers i ddatblygiadau diweddar ddigwydd ar hyd y ffordd.

5.3 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwrthod y cais canlynol:-
E/14134 - Newid arfaethedig i ddefnydd tir i iard beirianneg sifil, ger Gweithdy Peirianneg Aman, Heol Pentwyn, Betws (14).

5.4 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd i'r canlynol:-
E/14133 - Distrywio sgubor a'i ailosod gydag estyniad tebyg, Ffarm Gilfach Gower, Heol Argoed, Betws (15).
E/14110 - Agor llwybr beic/llwybr troed o Bontaman i Lanaman (13).
E/13986 - Annedd a garej ar wahân, Plot ger Maesifan, Heol Waunddwfn, Betws (12).

E/13539 - Datblygiad Annedd Preswyl ychwanegol math 12 a 12a ym Mharc Coetir rhan 2, Betws (7).
E/13968 - Bloc cawod newydd a stand â gorchudd, Clwb Pêl-droed Rhydaman, Stryd Rice, Betws, Rhydaman (11).
Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod ceisiadau cynllunio'r dyfodol yn cael eu hanfon i'r Is-bwyllgor Cynllunio cyn y cyfarfodydd misol.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

5.5 Cais Cynllunio Tyrbinau Gwynt.
Adroddodd y Cynghorwr Sir John D Evans fod y cais cynllunio fod i gael ei brosesi ar y 9fed o Dachwedd ond nid yw hyn wedi digwydd. Hefyd dywedodd fod rhai aelodau yn ymlid y cais hwn gan ddychryn pobl. Mae'r Cynghorwr Sir John D Evans wedi cymryd cyngor cyfreithiol ar y mater hwn.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

Penderfynodd y Cynghorwyr i beidio llofnodi unrhyw beth nes bod y cais cynllunio yn cael ei gytuno. Awgrymodd y Cynghorwr Peter Cowell, eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur a chytunodd y Cynghorwyr fod y Clerc yn rhoi diolch i ECO2 am ei llythyr. Penderfynwyd dweud os daw hyn yn orfodaeth ar yr ardal wedyn fyddai'r Gymuned yn croesawu'r cynnig o fudd.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at ECO2.

6. CYFRIFON.
1. Apêl Pabi (torch) £16.50
CYFANSWM £16.50
CYTUNWYD: I dalu'r bil uchod.

Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod Clwb Criced y Betws wedi ysgrifennu llythyr a dywedwyd "fod yr elw am y sioe cafodd ei gynnal ar y 19eg o Awst 2006 yn £260". Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price bod y Cyngor Cymuned yn gofyn am brawf bancio cyn bod ariannu cyfatebol yn cael ei ystyried. PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Glwb Criced y Betws i ofyn am brawf bancio.

Hefyd dywedodd y Clerc fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ad-dalu'r Cyngor Cymuned yr ail randal am y llwybrau troed o £720.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

7. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Shane Davies y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 7 trosedd wedi'u cofnodi yn ardal y Betws ym mis Hydref. Ar hyn o bryd dim ond 2 drosedd sydd wedi'u datrys.

Dywedodd PC Shane Davies wrth y Cynghorwyr fod yna ddau Ddisgo Glas wedi cael eu cynnal ym mis Hydref a bu dros 600 o bobl ifanc yn bresennol.

Roedd PC Davies wedi adrodd wrth y Cynghorwyr ynglyn â'r flaenoriaeth o gyfarfod mis diwethaf - lle'r oedd pobl ifanc yn gyrru beiciau sgramblo ar hyd llwybr troed 68/11 (y Llwybr Du). Mae'r Heddlu wedi gwneud ymweliadau cyson yn yr ardal ond yn anffodus nid ydynt wedi gweld y bobl sy'n gyfrifol.
Mae'r canlynol yn flaenoriaethau posibl am y mis hwn:-
• Adroddodd y Cynghorwr Peter Cowell am y problemau parcio ar hyd Heol y Felin, Betws.
• Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price os gall preswylwyr oedrannus gael cardiau i roi yn eu ffenestri am Nos Galan Gaeaf sy'n dweud 'dim twyllo na thretio yma'.
• Adroddodd y Cynghorwr Menna Roberts fod fan Swyddfa Bost yn cyflymu ar hyd Heol Maescware yn y nos.
• Hefyd adroddodd y Cynghorwr Betsan Jones fod fan Swyddfa Bost yn cyflymu ar hyd Heol Pentwyn yn y bore.

Cododd y Cynghorwr John D Evans mater o traffic yn cyflymu tu allan i Ysgol y Betws. Dywedodd PC Davies ddylai'r Cynghorwr Sir siarad gyda Mr McAvoy o Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn ag arwydd matrics sy'n costio tua £4000. Hefyd dywedodd y Cynghorwr Sir John D Evans ddylai llythyr o gefnogaeth gael ei ddanfon wrth Heddlu Dyfed Powys. Dywedodd PC Davies fydd yn pasio hyn ymlaen i'r Arolygwr Tony Ward.

NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

Rhoddodd y Gadeiryddes ddiolch i PC Shane Davies am ei adroddiad.

8. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Adroddodd Y Cynghorwr Sir John D Evans y canlynol:-
1. Llif ar waelod Heol y Cyrnol - Adroddodd fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi clirio amgylch cyffiniau'r bont ar Heol Maescware. Hefyd dywedodd efallai fod y broblem hon yn dechrau pellach lan yr heol tuag at Heol y Mynydd.
2. Goleuadau'r Stryd ar Heol y Cyrnol - Adroddodd nid yw'r gwaith wedi cael ei wneud eto.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr.

Rhoddodd y Gadeiryddes ddiolch i'r Cynghorwr Sir am ei adroddiad.

9. ADRODDIADAU.
9.1 Llwybrau Troed.
Rhoddodd y Cynghorwr Peter Cowell adroddiad manwl i'r Cynghorwyr ynglyn â'r llwybrau troed ym Metws.

Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell wrth y Cynghorwyr fod y Datblygydd o Waith Glo Betws wedi cynnig rhoi ffordd i anifeiliaid o gwmpas Safle Gwaith Glo Betws. Awgrymodd y Cynghorwr Peter Cowell ac eiliodd y Cynghorwr Betsan Jones fod y Cyngor Cymuned yn derbyn y cynnig wrth y Datblygydd.

PENDERFYNWYD: bod y Cynghorwyr yn ffafrio hyn.

Adroddodd y Cynghorwr Anne Sizmur yn absenoldeb y Cynghorwr Audrey Jones fod Mr Jones o Glynyradar am symud y llwybr troed tuag at y berth, os yw hyn yn dderbyniol fydd yn ffensio'r llwybr troed.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

10. UNRHYW FATER ARALL.
Dim.